**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 21 CHWEFROR 2023, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Philip Roberts, Anne Lawton, Gwynedd Williams, Rhys Parry, Beca Brown, Emyr Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Alan Pritchard, Richard Robinson.

**Clerc:** Meirion Jones

**1094. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**1095 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodir uchod

**1096. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1097. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Ionawr 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y cadeirydd

**1098. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

- Adroddwyd fod baw ci yn broblem yn Llanrug a Chwm y Glo
- Nifer o boteli gwydr Vodka ar lwybr cyhoeddus

**1099. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

**1100. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Nid oedd y Cynghorydd yn bresennol

**1101. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Lanrug ar Gyngor Gwynedd**

Adroddiadau i ddilyn

**1102.** **I dderbyn a mabwysiadu polisi ar gyfer meinciau coffaol oddi fewn i ardal y cyngor (Copi wedi atodi)**

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma

**1103.** **I dderbyn a mabwysiadu polisi trefn gwyno (Copi wedi atodi)**

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma

**1104.** **I dderbyn a mabwysiadu polisi trin cwynion (Copi wedi atodi)**

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma

**1105.** **I dderbyn a mabwysiadu polisi trin cwynion blinderus (Copi wedi atodi)**

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma

**1106.** **I dderbyn diweddariad ar reolau newydd ar gyfer y fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y pwyllgor wedi cyfarfod i adolygu rheolau'r fynwent. Nodwyd fod y pwyllgor 95% o'r ffordd i'w adolygu a gobeithir dod a'r rheolau newydd i gyfarfod mis Mawrth o'r cyngor ar gyfer eu cymeradwyo a'i mabwysiadu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1107.** **I dderbyn diweddariad ar bolisi bioamrywiaeth**

Adroddwyd fod y Cynghorwyr Hefin Jones, Philip Roberts, Rhys Parry ac Emyr Jones wedi cyfarfod i gychwyn ar y polisi a bod cyfarfod arall wedi trefnu ar gyfer wythnos nesaf

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd iddynt am eu gwaith

**1108.** **I dderbyn a mabwysiadu polisi grant dewisol ynghyd a ffurflen gais (Copi wedi atodi)**

**Penderfynwyd:** Derbyn a mabwysiadu'r polisi o ddyddiad y cyfarfod yma

**1109.** **I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau a gynhaliwyd 7fed o Chwefror 2023.**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar y 7fed o Chwefror 2023. Ymysg y materion a drafodwyd oedd

- Trefniadau golau Nadolig 2023 fod angen trefnu cyfarfod a'r Ysgol gynradd i drefnu lleoliad sefydlog i'r goeden bob blwyddyn. Nodwyd fod yr ysgol yn fach fod y goeden yn cael ei lleoli yno.

- Adroddwyd fod rhaglen o gasglu sbwriel wedi creu am weddill y flwyddyn ar gyfer Cwm y Glo a Llanrug.
- Adroddwyd fod un o'r offer yn y gampfa yn gam er bod yn gadarn yn y ddaear. Nodwyd fod ambell i rwyd un offer a bod angen paent.
- Adroddwyd fod rota mewn lle ar gyfer archwilio offer y gampfa
- Adroddwyd fod y gwaith ar y caeau chwarae yn mynd ymlaen yn dilyn yr asesiad risg gan ein contractwr
- Adroddwyd fod angen tynnu lluniau o'r Cennin Pedr eleni i weld ble sydd angen mwy ar gyfer y flwyddyn nesaf
- Adroddwyd fod y newyddlen ar gyfer 2022 wedi mynd allan a bod y cadeirydd wedi derbyn adborth cadarnhaol iddo am waith y cyngor cymuned. Nid oedd y sawl gysylltodd â'r cadeirydd yn ymwybodol fod y cyngor yn gwneud cymaint o waith oddi fewn i'r ardal.
- Adroddwyd fod coeden er cof am y diweddar Gynghorydd Charles Jones wedi ei thorri a bod Menter Fachwen am fynd i weld beth ellir ei wneud
- Adroddwyd fod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod a rheolwr y gwasanaeth ieuenctid parthed trefniadau rhedeg y clwb.
- Buodd y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn ymweld â'r clwb un nos Lun.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1110. I apwyntio Cyngor Gwynedd fel archwiliwr mewnol ar gyfer archwiliad 2022 / 2023**

**Penderfynwyd:** Adroddwyd gan y clerc ei fod yn ofynnol i'r cyngor apwyntio archwiliwr mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, sef 2022/2023. Adroddwyd ymhellach fod adain archwilio Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwneud y gwaith yn y gorffennol a bod y swyddogion yn cario allan eu gwaith yn broffesiynol ac yn rhwydd iawn i gysylltu â hwy. Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo apwyntio adain archwilio Cyngor Gwynedd ar gyfer archwiliad mewnol 2022/2023.

**Penderfynwyd:** Apwyntio Adran Archwilio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol ar gyfer 2022/2023.

**1111. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant a gynhaliwyd 25 Ionawr 2023.**

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 25ain o Ionawr 2023 a bod y cynllun bwyd wedi colli rhai aelodau ond fod 3 cais wedi dod fewn am gymorth. Adroddwyd ymhellach fod cyfarfod o'r pwyllgor i'w gynnal am 17:45 ar 28ain o Chwefror 2023 i drafod gwariant grant.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1112. I ystyried pwrcasu gliniaduron ar gyfer aelodau oherwydd mae'r tabledi presennol yn dod i ddiwedd eu hoes ac i ystyried perchnogaeth y Data sydd yn cael ei gadw ar offer.**

Adroddwyd gan y clerc fod y tabledi presennol yn dod i ddiwedd eu hoes ac yn dilyn cynrychiolaeth gan aelodau y byddai gliniaduron yn well. Byddai yn cryfhau ymrwymiadau'r cyngor i gadw data yn ddiogel oherwydd pe byddai'r data yn mynd ar goll, neu ei ddwyn, yna byddai'r cyngor yn gyfrifol a'r unigolyn. Roedd materion eraill yn ymwneud a chadw data ar gyfrifiadur, fel pwy sydd â mynediad at wybodaeth, sut mae'n cael ei ddiogelu, beth sydd yn digwydd i'r data petai gyfrifiadur yn cael ei ddwyn neu ddod i ddiwedd ei oes?

**Penderfynwyd:** Dirprwyir gwaith ymchwil at y Cynghorydd Rhys Parry a'r clerc i weld beth fyddai yn addas.

**1113. I gymeradwyo edrych fewn i'r posibilrwydd o newid cyfeiriadau e-bost y cyngor fel ei bod yn cynnwys 'llyw' neu 'gov'**

Adroddwyd gan y clerc nad oedd y cyfeiriad e-bost presennol yn adlewyrchu'r ffaith mai llywodraeth leol ydi Cyngor Cymuned Llanrug. Yr unig beth mae yn ddweud nawr ydi @llanrug.cymru.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i edrych fewn i'r posibilrwydd o ychwanegu 'llyw' a 'gov' yn y cyfeiriadau e-bost ond sicrhau fod Llanrug yn parhau.

**1114. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/1173/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Cynnig:** Adeiladu agoriad dros dro (am 3 blynedd) gyda leinin gwyn a seilwaith cysylltiedig, i gefnogi cynllun ehangach Amnewid Cebl Pentir, Dinorwig.
**Ymgeisydd:** Aileen Smith (National Grid)
**Asiant:** Juan Murray (The Environment Partnership)
**Lleoliad:** Tir Gyferbyn Carreg Y Fran, Cwm Y Glo, Caernarfon, LL55 4DD
**Cyfeirnod Grid:** 254982.54, 363016.06
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad a chefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C22/1140/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Cynnig:** Cais deiliaid tŷ i godi estyniad ochr a phorth newydd ynghyd a gwelliannau allanol a mewnol gyda clwydfan ystlumod / storfa coed mewn adeilad arwahan
**Ymgeisydd:** Mr Mads Huuse
**Asiant:** Mr Geraint Efans (Geraint Efans Pensaer)

**Lleoliad:** Awel Y Mynydd, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253371.88, 361285.63
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais os yw'r awdurdodau perthnasol yn ei gefnogi.

c) **Rhif y Cais:** C23/0048/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Cynnig:** Adeiladu tŷ.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Thomas Jones
**Asiant:** Alan Owen (A.L.I Building Design Ltd)
**Lleoliad:** Tir Ger 8 Rhes Rhythallt, Llanrug, LL55 4AT
**Cyfeirnod Grid:** 254293.62, 363589.88
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

Oherwydd bod cynrychiolaeth wedi ei wneud at y Cynghorydd Beca Brown gan yr ymgeisydd a gwrthwynebwyr, ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:-

- Pryder am y fynedfa o'r ddwy ffordd i'r eiddo
- Pryder am orlifo
- Gôr ddatblygiad o'r ardal
- Eiddo mewn lle gwlyb
- Cytuno gyda sylwadau adran Priffyrdd

d) **Rhif y Cais:** C23/0005/23/AM
**Math o Gais:** Cais Amlinellol
**Cynnig:** Cais amlinellol i godi annedd deulawr gyda mynediad, dreif a dau llecyn parcio newydd.
**Ymgeisydd:** Glyn Williams
**Lleoliad:** Tir Ger Llys Awen, Llanrug, LL55 4BA
**Cyfeirnod Grid:** 254316.59, 363628.58
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd: Gwrthwynebu am y rhesymau fel cais ( c )**

e) **Rhif y Cais:** C23/0033/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Cynnig:** Ty annedd newydd a llecynnau parcio
**Ymgeisydd:** Mr Alun Williams (Cefn Du Construction Ltd)
**Asiant:** Alan Owen (A.L.I Building Design Ltd)
**Lleoliad:** Tir Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug, Caernarfon, LL55 4JA
**Cyfeirnod Grid:** 253549.81, 363457.68

**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu ar y sail ei fod yn or- ddatblygiad o'r safle.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:25
Arwyddwyd:

Cynghorydd Meirwen Lloyd
Cadeirydd

Dyddiad: 21 Chwefror 2023